# Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan

Bydd Dda, Bydd Doeth, Bydd Wych

# Polisi Gweinyddu Meddyginiaethau



# Ysgol Gymraeg Tan-y-lan

# POLISI GWEINYDDU MEDDYGINIAETHAU MEWN YSGOLION

**CANLLAWIAU POLISI AC ARFER DA**

**Dylai'r arweiniad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â Chylchlythyr 34/97 y Swyddfa Gymreig sy'n adlewyrchu ymgynghori helaeth gydag undebau athrawon, AALlau, Gwasanaethau Iechyd a sefydliadau gwirfoddol a chefnogi disgyblion ag anghenion meddygol – Y Swyddfa Gymreig Rhagfyr 1997.**

**1. Egwyddorion Allweddol**

i) Mae Awdurdod Addysg Lleol Dinas a Sir Abertawe'n cefnogi athrawon a staff cefnogi sy'n barod, mewn rôl wirfoddol, i weinyddu meddyginiaethau rhagnodedig sy'n angenrheidiol er mwyn i ddisgyblion fynychu ysgol yn rheolaidd a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.
ii) Mae'r Awdurdod yn cynghori'r Cyrff Llywodraethu i dderbyn a dilyn y canllawiau a luniwyd gan yr Awdurdod.
iii) Mae'r Awdurdod yn argymell bod pob ysgol yn datblygu ei pholisi ei hunan ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth; dylai'r polisi hwn gael ei lunio mewn partneriaeth â staff a rhieni a dylai hyn gael ei gyfleu'n rheolaidd i'r rhieni.
iv) Dylai disgyblion â chyflyrau meddygol hir dymor, a all, heb eu rheoli'n gywir, gyfyngu ar eu mynediad i addysg, gael cynllun gofal iechyd.
v) Dylai gweinyddu meddyginiaethau ffurfio rhan o bolisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol.

**2. Rôl y Pennaeth**

i) Y Pennaeth sy'n gyfrifol am weithredu polisi'r Corff Llywodraethu ac am ddatblygu gweithdrefnau manwl.
ii) Dylai'r Pennaeth sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli i weinyddu meddyginiaethau yn derbyn cefnogaeth a hyfforddiant pan fo angen.
iii) Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o bolisi a gweithdrefnau'r ysgol.

iv) Dylai'r Pennaeth sicrhau bod yr holl staff a fydd efallai'n gorfod delio ag argyfwng yn gwybod am anghenion meddygol plant – mae hyn yn cynnwys athrawon cyflenwi.

v) Dylai Penaethiaid sicrhau bod profiad gwaith priodol yn cael ei drefnu ar gyfer disgyblion â chyflyrau meddygol penodol ac os yw'n briodol, dylai disgyblion gael eu hannog i rannu gwybodaeth feddygol berthnasol gyda'r cyflogwr.

**3. Cefnogaeth i staff sy'n gweinyddu meddyginiaeth**

i) Cydnabyddir nad oes dyletswydd gyfreithiol na chytundebol ar staff ysgolion i weinyddu meddyginiaeth na goruchwylio disgybl sy'n ei chymryd ac eithrio aelodau'r staff cefnogi a gyflogwyd yn arbennig gyda chytundeb i ddarparu cymorth meddygol i'r disgybl.

ii) Fodd bynnag, mae dyletswydd cyfraith gwlad ar staff ysgol i weithredu fel y byddai unrhyw riant doeth a rhesymol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn iach ac yn ddiogel a gallai hyn mewn amgylchiadau eithriadol olygu gweinyddu meddyginiaeth a/neu weithredu mewn argyfwng. Mae'r Ddeddf Plant yn darparu cwmpas i athrawon wneud yr hyn sy'n rhesymol at ddiben diogelu neu hybu lles plant.

iii) Mae yswiriant yr Awdurdod yn darparu sicrwydd yswiriant i staff sy'n gweinyddu meddyginiaethau fel rhan o'u dyletswyddau naill ai yn yr ysgol neu ar ymweliadau addysgol.

iv) Dylai Penaethiaid dderbyn cyngor gan Feddyg yr ysgol os oes eisiau cyngor neu hyfforddiant arnynt o ran meddyginiaeth neu driniaeth benodol.

v) Argymhellir os bydd staff yn cytuno i weinyddu meddyginiaeth, dylid cael cytundeb ysgrifenedig gyda'r rhieni a dylai cofnod gael ei gadw pan fydd hi'n cael ei gweinyddu. Mae enghreifftiau o ffurflenni y gellid eu defnyddio at y diben hwn wedi'u hamgáu yn Atodiad A a B.

**4. Polisïau Ysgolion**

Dylai polisïau gweinyddu meddyginiaeth hyd ag y mae modd, alluogi presenoldeb ysgol rheolaidd. Dylai'r staff, rhieni a disgyblion ddeall yr holl bolisïau a dylid eu cyfleu'n rheolaidd iddynt. Dylai polisïau ysgolion gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- A yw'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb neu beidio, mewn egwyddor, i staff ysgol roi neu oruchwylio plant sy'n cymryd meddyginiaeth ragnodedig yn yr ysgol
- Polisi'r ysgol ar gynorthwyo disgyblion ag anghenion meddygol hir dymor neu gymhleth yn yr ysgol
- Yr angen am gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan rieni ar gyfer unrhyw feddyginiaeth i'w rhoi i ddisgybl
- Yr amgylchiadau y gall disgyblion gymryd meddyginiaeth heb ei rhagnodi e.e. poenladdwyr.

**D.S. - Ni ddylai plentyn dan 12 oed gael asbirin oni bai bod Meddyg wedi rhagnodi hyn.**

- Polisi ar ddisgyblion yn cario ac yn cymryd eu meddyginiaeth

- Cadw cofnodion
- Storio a chael mynediad i feddyginiaeth
- Hyfforddiant staff
- Gweithdrefnau argyfwng yr ysgol

## 5. Rôl Rhieni

Mae'n bwysig iawn sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o bolisi'r ysgol a rôl rhieni o fewn y polisi hwnnw.

i) Mae rhieni'n gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn ddigon iach i fynychu'r ysgol h.y. ni ddylai rhieni anfon eu plant i'r ysgol os nad ydynt yn ddigon iach i fynychu.

ii) Dylai rhieni ddarparu digon o wybodaeth berthnasol i'r Pennaeth am gyflwr meddygol eu plentyn a dylent gytuno ar y cyd gyda'r Pennaeth ar rôl yr ysgol wrth ddiwallu anghenion meddygol y plentyn. Dylid gwneud yn glir i'r rhieni pa staff yn yr ysgol fydd angen gwybod am gyflwr y plentyn a bydd cyfrinachedd yn cael ei gadw fel arall. Lle bo'n bosib, dylai'r rhieni gael eu hannog i drefnu bod y plentyn yn cymryd meddyginiaeth y tu allan i oriau ysgol e.e. gwrthfiotigau.

- Mae ffurflen enghreifftiol wedi'i hamgáu yn Atodiad C sy'n disgrifio'r wybodaeth sy'n rhesymol ddisgwyliedig i'r rhiant ddarparu os ydynt yn dymuno i'r ysgol weinyddu meddyginiaeth.
- Ni ddylid rhoi meddyginiaeth i unrhyw ddisgybl dan 16 oed heb ganiatâd ysgrifenedig gan rieni.
- Dylai unrhyw aelod o staff sy'n gweinyddu meddyginiaeth wirio:
  Enw'r disgybl
  dyddiad geni
- Cyfarwyddiadau ysgrifenedig gan rieni neu Feddyg
- Dos rhagnodedig
- Dyddiad dod i ben y feddyginiaeth

Os oes gan Bennaeth unrhyw bryder am feddyginiaeth y gofynnir iddo/iddi ei weinyddu, dylent drafod hyn gyda Meddyg yr ysgol.

- Os bydd disgybl yn gwrthod cymryd meddyginiaeth, yna dylid hysbysu'r rhiant yn syth. Ni ddylid gorfodi disgyblion i gymryd meddyginiaeth.
- Os yw plentyn yn gallu cario a gweinyddu ei feddyginiaeth ei hun (gan gofio diogelwch disgyblion eraill) dylent gael eu hannog i wneud hynny ond dylai rhieni ddarparu caniatâd ysgrifenedig.

## 6. Storio Meddyginiaeth

- Dylai unrhyw feddyginiaeth sy'n dod i'r ysgol fod yn ei chynhwysydd gwreiddiol wedi'i labelu'n briodol gydag enw'r disgybl, enw a dos y cyffur ac amlder gweinyddu.
- Os bydd angen mwy nag un feddyginiaeth ar ddisgybl, dylai pob un ohonynt gael eu storio mewn cynwysyddion ar wahân.

- **Ni ddylai staff byth drosglwyddo meddyginiaeth o'u cynwysyddion gwreiddiol**
- **Dylai disgyblion wybod ble mae eu meddyginiaeth yn cael ei storio a phwy sydd â'r allwedd. Ni ddylai rhai meddyginiaethau e.e. mewnanadlwyr asthma fod dan glo ac y dylent fod ar gael i'r disgyblion.**
- **Dylai meddyginiaethau fel arall gael eu cadw mewn lle diogel allan o afael disgyblion**
- **Os bydd meddyginiaeth yn cael ei chloi i ffwrdd dylai'r holl staff wybod ble mae'r allwedd.**
- **Gall meddyginiaethau sydd angen cael eu cadw yn yr oergell gael eu cadw mewn oergell sy'n cynnwys bwyd (gan gynnwys mewn cegin ysgol) ond dylent fod mewn cynhwysydd aerdyn ac wedi'u labelu'n glir (e.e. cynhwysydd hufen iâ gwag)**
- **Mae'r Swyddfa Gymreig yn argymhell bod ysgolion yn defnyddio cabinet meddyginiaeth y gellir ei gloi sy'n cydymffurfio â BS2881/1989 ac o ddiogelwch sy'n well na "phrawf lefel 1" y safon hwnnw.**
- **Ni ddylai staff waredu ar feddyginiaethau diangen, dylent ei dychwelyd at y rhieni**
- **Dylai staff gael mynediad i fenig amddiffynnol tafladwy a bod yn ofalus wrth ddelio â gollyngiadau hylifau'r corff ac wrth waredu gorchuddion neu gyfarpar**
- **Dylai'r staff ddilyn gweithdrefnau hylendid sylfaenol**

## 7. Cynlluniau Gofal Iechyd

**i) Bydd pob plentyn o bryd i'w gilydd angen mynd â meddyginiaeth i'r ysgol, ond mae gan rai plant gyflyrau meddygol sy'n gofyn am reoli gofalus os ydynt i fynychu ysgol yn rheolaidd. Dylai penaethiaid ymgynghori â meddyg yr ysgol wrth lunio Cynllun Gofal Iechyd. Mae cytundeb ysgrifenedig gyda rhieni'n egluro i'r staff, rhieni a disgybl yr help gall yr ysgol ddarparu a derbyn. Dylai'r cynllun gael ei adolygu ar y cyd o leiaf unwaith y flwyddyn neu cyn hynny os bydd yr anghenion iechyd yn newid.**

**ii) Dylai'r cyfranwyr i'r cynllun gynnwys -Pennaeth, rhieni, plentyn (os yw'n ddigon aeddfed) athro/athrawes d/ddosbarth/pennaeth blwyddyn/athro/athrawes b/flwyddyn, cynorthwy-ydd gofal, staff cefnogi neu nyrs yr ysgol (os yw'n briodol) - unrhyw staff eraill sydd wedi cytuno i weinyddu meddyginiaeth neu wedi'u hyfforddi mewn gweithdrefnau argyfwng. Gwasanaeth Iechyd Ysgol, Meddyg neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol eraill - gan ddibynnu ar lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar yr ysgol.**

**iii) Argymhellir bod Pennaeth yn rhoi cyfrifoldeb i un aelod o staff am gydlynu a lledaenu gwybodaeth neu am ddisgybl unigol ag anghenion meddygol. Rôl y person hwn fyddai bod y cyswllt cyntaf ar gyfer rhieni a staff ac i gysylltu ag asiantaethau eraill.**

**Mae'r ddogfen: Cefnogi Disgyblion ag Anghenion Meddygol: Canllaw Arfer Da'r Swyddfa Gymreig 1997 yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am Asthma, Epilepsi,**

**Clefyd y Siwgr ac Anaffylacsis, cyfeiriadau grwpiau cefnogi gwirfoddol ar gyfer rhai cyflyrau a phro fforma ar gyfer gweinyddu Diazepam yn rhefrol.**

**MAE'R POLISI HWN YN FFURFIO RHAN O'R POLISI IECHYD A DIOGELWCH**

**POLISI YSGOL GYNRADD GYMRAEG TAN-Y-LAN**
**AR GYFER GWEINYDDU MEDDYGINIAETHAU**

## 1. Cyflwyniad

Bydd yr ysgol hon yn gweithio gyda rhieni a Gwasanaeth Iechyd yr Ysgol i gefnogi presenoldeb rheolaidd disgyblion yn yr ysgol sydd angen cymryd meddyginiaeth tra yn yr ysgol.

Os oes gan ddisgybl gyflwr meddygol hir dymor bydd yr ysgol, mewn partneriaeth â rhieni a chyda chyngor meddygol, yn llunio cynllun gofal iechyd i alluogi disgyblion i gyfranogi mor llawn â phosib ym mywyd yr ysgol.

Mae gan y Pennaeth, staff yr ysgol, rhieni, Gwasanaeth Iechyd yr Ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill rôl i'w chwarae a diwallir anghenion plant orau pan fydd cyfathrebu da rhwng yr holl bartïon.

Caiff meddyginiaeth ei gweinyddu ar sail wirfoddol gan staff ac felly gofynnir i rieni wneud cais am weinyddu meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol pan fo gwir angen yn unig. Os yw'n bosib, dylai trefniadau gael eu gwneud fel bod meddyginiaethau e.e. gwrthfiotig, yn cael eu cymryd y tu allan i oriau ysgol. Cediwr meddyginaeth disgyblion yn y dosbarthiadau os oes angen megis 'inhaler ', 'epipen ' neu mae moddion achlysurol e.e gwrthfiotig yn cael ei storio yn swyddfa'r ysgol.

## 2. Rôl y Pennaeth

Bydd y Pennaeth yn:

- pennu, drwy drafod â rhieni a chyda Gwasanaeth Iechyd yr Ysgol, a yw'r ysgol yn gallu diwallu anghenion meddygol y disgybl ai peidio. Os felly, dylid cwblhau ffurflen A;
- sicrhau bod staff sy'n cytuno i weinyddu meddyginiaeth yn derbyn cefnogaeth a chyngor ar unrhyw hyfforddiant angenrheidiol gan Wasanaeth Iechyd yr Ysgol;
- hysbysu rhieni'n rheolaidd am bolisi'r ysgol;
- sicrhau bod yr **holl** staff addysgu a chefnogi ac athrawon cyflenwi y gall bod angen iddynt ddelio ag argyfwng meddygol oherwydd anghenion meddygol plentyn, yn gwybod beth yw anghenion y plentyn a'r gweithdrefnau i'w dilyn;
- trefnu storio meddyginiaethau'n ddiogel a sicrhau os yw'r feddyginiaeth yn cael ei storio yn rhywle, bod y staff yn gwybod ble mae'r allwedd a bod yr holl blant sydd angen meddyginiaeth yn gwybod ble mae'r feddyginiaeth yn cael ei chadw a phwy sydd â'r allwedd;
- trefnu darparu menig amddiffynnol tafladwy i'w defnyddio gan staff wrth ddelio â gollyngiadau hylifau'r corff neu wrth waredu gorchuddion.

## 3. Rôl Staff

**Cydnabyddir bod gweinyddu meddyginiaethau gan staff yn weithgaredd gwirfoddol y mae staff yn ymgymryd ag ef er lles y disgyblion yn yr ysgol hon.**

**Bydd staff sy'n gweinyddu meddyginiaethau yn:**

- **gwirio enw'r disgybl, dyddiad geni, dos rhagnodedig a dyddiad dod i ben y feddyginiaeth cyn gweinyddu;**
- **cwblhau ffurflen B i gofnodi manylion y feddyginiaeth a roddwyd;**
- **sicrhau bod y rhiant/gofalwr yn cael ei hysbysu os bydd y disgybl yn gwrthod cymryd y feddyginiaeth;**
- **dychwelyd unrhyw feddyginiaeth at y rhiant;**
- **dilyn gweithdrefnau hylendid sylfaenol a gwisgo menig amddiffynnol wrth ddelio â gollyngiadau hylifau'r corff neu wrth waredu gorchuddion;**
- **os bydd unrhyw bryder meddygol am ddisgybl, byddwn yn cysylltu ar unwaith â'r rhieni/gofalwyr.**

## 4. Rôl Rhieni

**Gofynnir am gydweithrediad rhieni er mwyn sicrhau mai diogelwch a lles y plentyn sydd bennaf. Am y rheswm hwn, bydd meddyginiaethau nad ydynt wedi cael eu rhagnodi ond yn cael eu gweinyddu mewn amgylchiadau eithriadol gyda chytundeb y Pennaeth. Ni fydd asbirin yn cael ei weinyddu. Os bydd y Pennaeth yn gofidio am roi'r feddyginiaeth y gofynnwyd amdani, gofynnir am gyngor gan Wasanaeth Iechyd yr Ysgol.**

**Mae'n bwysig iawn bod rhieni'n darparu gwybodaeth berthnasol ddigonol i'r ysgol am gyflwr eu plentyn e.e. a oes unrhyw sgil effeithiau o gymryd meddyginiaeth benodol, a oes eisiau cymryd mesurau rhagofalus cyn ymarfer corff etc.**

**Dylai rhieni:**

- **gwblhau ffurflen C os ydynt yn dymuno i feddyginiaeth gael ei gweinyddu yn yr ysgol;**
- **dod â meddyginiaethau i'r ysgol yn y cynhwysydd gwreiddiol, wedi'u labelu'n glir gydag enw a dyddiad geni'r disgybl;**
- **darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig gan y Meddyg Teulu os yn bosib;**
- **sicrhau os oes angen cymryd mwy nag un feddyginiaeth, bod pob un mewn cynhwysydd ar wahân;**
- **sicrhau bod gan yr ysgol rif ffôn cyswllt.**

## 5. Cynlluniau Gofal Iechyd

**Os oes gan blentyn gyflwr meddygol sy'n gofyn am reoli gofalus, bydd y Pennaeth yn ymgynghori â rhieni a chyda meddyg yr ysgol ac yna'n llunio Cynllun Gofal Iechyd drwy ymgynghori â'r holl bartïon perthnasol.**

**Bydd y cynllun yn gytundeb ysgrifenedig â'r rhiant a bydd yn amlinellu i'r staff, y rhieni a'r disgybl yr help gall yr ysgol ei ddarparu a'i dderbyn.**

**Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am gychwyn adolygiad ar y cyd o'r Cynllun Gofal Iechyd o leiaf unwaith y flwyddyn, neu'n gynt os bydd yr anghenion meddygol yn newid. Mae'r rhieni'n gyfrifol am hysbysu'r ysgol os bydd yr anghenion meddygol yn newid.**

**Gweler 6 a 7 isod o ran ymweliadau ysgol a gweithgareddau chwaraeon.**

## 6. Ymweliadau Ysgol

**Lle bynnag y bo'n bosib, bydd disgyblion yn cael eu hannog i gyfranogi mewn ymweliadau ysgol hyd yn oed os ydynt yn cymryd meddyginiaeth. Mewn rhai amgylchiadau, gellir gofyn i rieni gynorthwyo drwy ddod gyda'r disgybl ar yr ymweliad. Os bydd y Pennaeth yn gofidio ynghylch a all yr ysgol ddarparu ar gyfer diogelwch y plentyn neu ddiogelwch y disgyblion eraill ai peidio, yna gofynnir am gyngor gan Wasanaeth Iechyd yr Ysgol neu Feddyg Teulu'r plentyn.**

## 7. Gweithgareddau Chwaraeon

**Mae'r holl ddisgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Addysg Gorfforol a gêmau; ar gyfer y rhan fwyaf o blant mae gweithgaredd corfforol o fudd i iechyd cymdeithasol, meddyliol a chorfforol y plentyn.**

**Os oes unrhyw rwystradau ar allu disgybl i gyfranogi mewn Addysg Gorfforol, dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y Cynllun Gofal Iechyd unigol.**

**Os oes angen cymryd mesurau rhagofalus ar blant cyn neu yn ystod ymarfer corff a/neu angen cael mynediad ar frys i'w meddyginiaeth, bydd staff yn ymwybodol o hyn.**

**Bydd staff sy'n goruchwylio gweithgareddau chwaraeon yn ymwybodol o weithdrefnau argyfwng.**

**Dyddiad adolygu'r polisi  Ionawr  2023**

**Gan Mr Berian Wyn Jones , Pennaeth**